Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**17 Ffordd Garnedd**

**Y Felinheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# 17 Ffordd Garnedd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited. |
| Lleoedd cofrestredig | 2 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 07 Mawrth 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Cyhoeddwyd pum hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth; y ffaith nad oedd y staff gofal yn cael eu goruchwylio'n briodol; y ffaith nad oedd cynlluniau personol y bobl yn cael eu hadolygu'n ddigonol, a'r ffaith nad oedd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth mor aml â'r hyn sy'n ofynnol nac yn cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod pob maes i'w wella wedi cael ei gyflawni.

Ar y cyfan, mae'r bobl yn hapus, yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau cydberthynasau da â'r staff gofal sy'n eu cefnogi. Mae trefniadau ar waith i gynnwys y bobl mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth.

Mae swyddi staff gofal gwag i'w cael ar hyn o bryd, ac mae darparwr y gwasanaeth yn defnyddio staff gofal asiantaeth i sicrhau y caiff lefelau staffio eu cynnal. Nid oes rheolwr cofrestredig yn y cartref ar hyn o bryd, ac mae darparwr y gwasanaeth wedi trefnu i reolwyr o gartrefi eraill oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae systemau ar waith i ddiogelu iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol a chyfforddus. Mae ystafell pob unigolyn wedi'i haddurno a'i dodrefnu yn unol â'i ddewisiadau personol, ac yn cynnwys eiddo personol sy'n bwysig iddo.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael. Mae dewisiadau ar gael iddynt o ran y ffordd y maent am gael eu cefnogi a sut maent am dreulio eu hamser. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth, ac mae'r staff gofal yn gwrando ar eu safbwyntiau.

Darperir cymorth e i alluogi'r bobl i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Caiff y bobl eu hannog i wneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser. Caiff gweithgareddau eu trefnu mewn modd sy'n sicrhau bod ceir a staff gofal ar gael. Mae’r lefelau staffio yn galluogi’r staff gofal i dreulio amser yn cefnogi’r bobl ar sail un i un yn unol â'u cynlluniau personol.

Ar y cyfan, caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gael cyngor ar iechyd meddwl a gofal cymdeithasol pan fo angen, sy'n sicrhau bod y bobl yn aros mor iach â phosibl. Mae'r cartref yn ymgynghori â gweithwyr proffesiynol arbenigol am iechyd a llesiant y bobl.

Mae systemau da ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am ddiogelwch y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith sy'n cefnogi'r staff gofal i amddiffyn y bobl rhag niwed.

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd addas a chartrefol sy’n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y bobl. Caiff y cartref ei gadw yn lân ac yn daclus. Mae uwch-reolwr wedi gwneud cais am asesiad o'r amgylchedd gan weithiwr proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau bod y bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol sy'n rhoi gwybodaeth i'r staff gofal am sut i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth unigol o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal parhaol yn brofiadol ac yn adnabod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, a'u bod yn teimlo bod y staff gofal yn eu trin â pharch.

Caiff y bobl ofal a chymorth da i ddiwallu eu hanghenion a chyflawni eu canlyniadau personol. Cymerir camau i sicrhau y caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu cynnal. Mae'r uwch-reolwyr yn ymgynghori â gweithwyr cymdeithasol ac iechyd proffesiynol i drafod sut y gellir gwella profiadau'r bobl. Mae adnodd ar gyfer asesiad y darparwr wedi'i lunio er mwyn mesur a yw'r gwasanaeth yn parhau i fod yn addas i ddiwallu anghenion y bobl. Mae asesiadau ar waith ar gyfer risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl, sy'n cofnodi sut y caiff y risgiau eu rheoli. Gwneir trefniadau i'r bobl weld gweithwyr iechyd proffesiynol pan fydd angen a chaiff canlyniad pob apwyntiad ei gofnodi a'i rannu â'r tîm. Rhoddir cymorth i ddilyn y cyngor a'r canllawiau a roddwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol. Mae systemau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaeth.

Mae darparwr y gwasanaeth yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Nid oes yr un aelod o'r staff gofal yn siarad Cymraeg yn rhugl ac, felly, ni ellir darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref ar hyn o bryd am gael eu gofal yn Saesneg.

## Yr Amgylchedd

Fflat llawr gwaelod yw'r cartref, wedi'i leoli ar ystâd dai mewn ardal rannol wledig ond sy'n agos at siopau a chyfleusterau hamdden. Mae ardal fwyta, cegin a byw agored lle y gall y bobl wylio'r teledu neu gymdeithasu. Mae gan bob unigolyn sy'n byw yn y fflat ystafell wely unigol, ond nid oes ardal breifat i'r bobl gwrdd ag ymwelwyr, ar wahân i'w hystafelloedd gwely. Nid oes ystafell wely i'r staff, ac mae'r staff gofal sy'n cysgu yn y cartref dros nos yn cysgu ar y soffa ac yn cloi drws yr ystafell fyw am 11:00 pm. Ceir ystafell ymolchi â chawod uwchben y bath. Mae'r rheolwyr wedi gofyn am asesiad gan y tîm iechyd galwedigaethol i adolygu addasrwydd yr amgylchedd i'r bobl.

Mae'r bobl yn dewis décor y cartref ac yn cael dewis lluniau a phlanhigion i greu ymdeimlad cartrefol. Mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus am eu bod yn cael gofal mewn amgylchedd dymunol. Mae'r cartref yn un o dri chartref a ddarperir gan ddarparwr y gwasanaeth, sydd wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd. Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried dymuniadau a dewisiadau’r bobl o ran y ffordd y caiff eu hystafelloedd eu dodrefnu a'u haddurno. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn gweddu i'w hanghenion a'u ffyrdd o fyw ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u diogelwch.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel ac ymatebir yn brydlon i faterion cynnal a chadw. Mae darparwr y gwasanaeth yn trefnu bod gwiriadau amgylcheddol yn cael eu cynnal a chaiff adroddiad ei lunio. Caiff y systemau gwresogi a thrydanol eu gwirio bob blwyddyn, ac mae asesiad risg tân wedi'i gynnal. Mae'r staff gofal yn cynnal gwiriadau dyddiol, wythnosol a misol ar yr amgylchedd ac ymarferion tân rheolaidd, ac mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPS) ar waith ar gyfer y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth yn disgrifio'r llety sydd ar gael, y broses atgyfeirio a derbyn, a'r gofal a'r cymorth sydd ar gael yn gywir. Mae canllaw'r bobl yn darparu gwybodaeth berthnasol am y gofal a'r cymorth y byddant yn eu cael, ac mae ar gael mewn fformatau hygyrch.

Mae'r cartref wedi wynebu cyfnod heriol yn ddiweddar am fod nifer o swyddi gwag yn y tîm staff gofal o ganlyniad i staff yn gadael. Mae'r staff gofal parhaol wedi gweithio shifftiau ychwanegol a defnyddir staff gofal asiantaeth i lenwi unrhyw fylchau ar y rota. Mae staff gofal newydd eu penodi yn destun gwiriadau recriwtio manwl, ac mae'r darparwr y gwasanaeth hefyd yn cynnal gwiriadau ar weithwyr asiantaeth. Mae cynllun sefydlu ar waith ar gyfer staff gofal newydd, a darperir Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan iddynt ei gwblhau yn ystod eu cyfnod prawf. Mae hyfforddiant gorfodol ac arbenigol yn sicrhau bod staff gofal newydd a pharhaol yn meithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl.

Nid oes rheolwr yn y cartref ar hyn o bryd. Mae darparwr y gwasanaeth wedi trefnu cymorth rheoli gan uwch-reolwr a rheolwyr o gartrefi eraill, ac mae hyn wedi mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae amlder a chynnwys sesiynau goruchwylio'r staff gofal wedi gwella. Mae darparwr y gwasanaeth wedi trefnu i reolwr arsylwi ar ymarfer y staff gofal ac adolygu'r cofnodion, ac mae'r staff gofal wedi cwblhau asesiadau ymwybyddiaeth o urddas. Mae'r cofnodion goruchwylio yn dangos bod ymarfer y staff gofal a thrafodaethau am y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn cael eu goruchwylio'n dda. Mae cyfarfodydd tîm wedi cael eu cynnal a dengys y cofnodion fod trafodaethau wedi'u cynnal am anghenion y bobl a sut y dylai'r staff gofal eu cefnogi.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau sicrhau ansawdd ar waith i fonitro'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac yn darparu adroddiadau ar ei ganfyddiadau. Mae'r bobl yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad ag ef ac yn codi materion os oes angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi cynnal adolygiad o ansawdd y gofal ac wedi paratoi adroddiad manwl ar y canfyddiadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Pan gaiff y cynlluniau personol eu hadolygu, ni chânt eu diwygio neu eu datblygu i adlewyrchu newidiadau i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y cynlluniau yn cynnwys digon o wybodaeth am anghenion yr unigolyn, a'r graddau y mae wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol. Dylid cynnal adolygiadau mewn ymgynghoriad â'r unigolion. | Cyflawnwyd |
| 73 | Nid yw’r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â’r cartref bob tri mis. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaeth o leiaf bob tri mis a darparu adroddiad o'r ymweliad sy'n benodol i'r cartref. | |
| 36 | Ni chafodd cyfarfodydd tîm na chyfarfodydd goruchwylio unigol eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol. Nid yw'r prosesau goruchwylio yn sicrhau y gall y staff gofal fyfyrio ar eu hymarfer na dangos eu bod wedi deall yr hyfforddiant y maent wedi'i fynychu. Nid yw'r staff gofal wedi cael arfarniad ers 2021. | Cyflawnwyd |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. | Cyflawnwyd |
| 80 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gynnal adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref bob chwe mis o leiaf a llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/11/2023

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Pan gaiff y cynlluniau personol eu hadolygu, ni chânt eu diwygio neu eu datblygu i adlewyrchu newidiadau i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y cynlluniau yn cynnwys digon o wybodaeth am anghenion yr unigolyn, a'r graddau y mae wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol. Dylid cynnal adolygiadau mewn ymgynghoriad â'r unigolion. | Cyflawnwyd |
| 73 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r cartref bob tri mis. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaeth o leiaf bob tri mis a darparu adroddiad o'r ymweliad sy'n benodol i'r cartref. | |
| 36 | Ni chafodd cyfarfodydd tîm na chyfarfodydd goruchwylio unigol eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol. Nid yw'r prosesau goruchwylio yn sicrhau y gall y staff gofal fyfyrio ar eu hymarfer na dangos eu bod wedi deall yr hyfforddiant y maent wedi'i fynychu. Nid yw'r staff gofal wedi cael arfarniad ers 2021. | Cyflawnwyd |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. | Cyflawnwyd |
| 80 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gynnal adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref bob chwe mis o leiaf a llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/11/2023